NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Peiriant darlifo oddi ar y safle ar gyfer cadw afu/iau allgorfforol i'w trawsblannu

16 Ionawr 2019

Nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr ynghylch y driniaeth hon, ond nid oes llawer o dystiolaeth dda ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio. Dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio y gellir defnyddio'r driniaeth hon.

Bydd afu/iau ar gyfer trawsblaniad fel arfer yn cael ei storio â hylif oer a rhew nes ei roi yn y claf. Yn ystod y driniaeth hon, defnyddir peiriant i roi toddiant wedi'i ocsigeneiddio i afu/iau y rhoddwr. Y nod yw lleihau niwed i'r afu/iau ar ôl iddo gael ei dynnu o'r rhoddwr, cynyddu am faint y gellir ei storio cyn trawsblaniad a gwella'r ffordd y mae'n gweithio ar ôl iddo gael ei drawsblannu. Mae hefyd yn bosibl i asesu pa mor dda y mae'r afu/iau yn gweithio cyn iddo gael ei drawsblannu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3117-0



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.